**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** ARD 01-02(p1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 9 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm tan 4.50pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS FATERION GWLEDIG

### Clwy'r Traed a'r Genau: Y Drefn Symud Dros Dro

1. Yn dilyn ymgynghori helaeth â budd-ddeiliaid allweddol o fewn y diwydiant, cyhoeddwyd trefn dros dro ar gyfer symud anifeiliaid ar 19 Rhagfyr. Mae manylion y drefn, y disgwylir iddi ddod i rym ym mis Chwefror, ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ac yng nghylchlythyr yr Adran Amaethyddiaeth i bob ffermwr da byw yng Nghymru. Er bod Cymru wedi bod yn rhydd o glwy'r traed a'r genau ers dechrau Rhagfyr, mae angen parhau i fod ar ein gwyliadwriaeth a bwriad y drefn yw sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen parhaus am reolau rhagofalus a chaniatáu mwy o ryddid i'r diwydiant o ran symud anifeiliaid i amrywiaeth o ddibenion.

2. Rhagwelir y bydd modd llacio'r rheolau, drwy:

- Rhoi trwyddedau cyffredinol, yn hytrach nag unigol, ar gyfer symud, yn y rhan fwyaf o achosion;
- Agor marchnadoedd da byw (gyda rheolau bioddiogelwch newydd);
- Agor pob marchnad lladd anifeiliaid (gyda rheolau bioddiogelwch newydd);
- Cadw cyfnod o 20 diwrnod heb symud anifeiliaid pan nad yw opsiynau rheoli eraill yn darparu digon o ddiogelwch;
- Trefniadau ar gyfer symud lloi;
- Trefniadau ar gyfer symud i fridio;
- Caniatáu i fwy o ddefaid gael eu symud (gyda rheolau olrhain newydd);
- Trefniadau ar gyfer dychwelyd defaid ar dac; a
- Caniatáu sawl man codi a gollwng mewn rhai amgylchiadau

3. Gallai elfennau o'r drefn dros dro hon gael eu llacio ymhellach yn ystod y flwyddyn yng ngoleuni profiad a thrafodaethau pellach gyda'r diwydiant ee caniatáu rhai marchnadoedd defaid. Yn dilyn hynny, bydd angen rhoi ystyriaeth, yn ddiweddarach eleni, i ganlyniad Ymchwiliadau'r Llywodraeth i glwy'r traed a'r genau yn ogystal ag unrhyw newidiadau i reolaethau'r UE wrth fynd ati i lunio gweithdrefn

barhaol newydd.

**Diwygio Cyfundrefn Cig Dafad yr UE**

4. Ar 19 Rhagfyr, bûm yn bresennol yng Nghyngor Gweinidogion Amaethyddiaeth yr UE a gytunodd ar y pecyn diwygio ar gyfer Cyfundrefn Cig Dafad yr UE, a'r cyfraddau tâl cysylltiedig ar gyfer y Premiwm Blynyddol Defaid. Mae'r diwygiadau, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2002, yn golygu taliad premiwm safonol o €21 fesul pob anifail cymwys yn ogystal â thâl atodol o €7 (ar gyfer y byd gwledig) ar gyfer ardaloedd llai ffafriol Cymru. Mae'r cyfraddau hyn yn uwch na'r taliadau yn 2001 a chânt eu talu fel un swm rhwng 16 Hydref a'r 31 Mawrth canlynol.

5. Mae diwygio Cyfundrefn Cig Dafad yr UE yn newyddion da i gynhyrchwyr yng Nghymru. Bydd y cam tuag at daliadau safonol yn symleiddio'r gyfundrefn, ac yn galluogi cynhyrchwyr defaid i gynllunio ymlaen llaw, gan y byddant yn gwybod beth yw'r cyfraddau premiwm.

6. Mae'r pecyn diwygio ar gyfer defaid yn cynnwys darpariaeth a fydd yn galluogi Aelod-Wladwriaethau i weithredu Cynllun Amlen Genedlaethol ar lefel ranbarthol. Amcangyfrifir mai tua £3.5m fydd gwerth Amlen Cymru yn 2002. Byddaf yn ymgynghori â sefydliadau sydd â diddordeb ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer gweithredu'r amlen ond fy nhueddiad yw cynnig ychwanegu'r arian sydd ar gael i Gymru ar gyfer Blwyddyn Cynllun 2002 at y premiwm safonol o €21. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser ar gyfer ymgynghori trwyadl ar sut y gellid defnyddio'r arian orau mewn blynyddoedd i ddod er hyrwyddo cynaliadwyedd tymor hwy y sector defaid yng Nghymru. Dyma'r opsiynau:

- gwneud taliadau ychwanegol y pen, naill ai i ategu'r premiwm sylfaenol neu fel taliadau anarddwys sy'n gysylltiedig â lefelau stocio is;
- gwneud taliadau arwynebedd;
- gwneud taliadau i gynhyrchwyr sy'n ymwneud â mathau penodol o gynhyrchu, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig ag ansawdd sy'n bwysig i'r economi leol neu i'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd;
- hybu'r gwaith o ailstrwythuro daliadau cynhyrchwyr neu ddatblygu sefydliadau cynhyrchwyr;
- cefnogi'r gwaith o wella ac ad-drefnu'r ffordd y caiff cig dafad ei brosesu a'i farchnata; a
- rhoi'r pwer i Aelod-Wladwriaethau i brynu cwotâu oddi wrth gynhyrchwyr.

7. Bydd is-ddeddfwriaeth yn angenrheidiol ar gyfer cyflwyno taliadau'r Premiwm Blynyddol Defaid eleni (Taliadau Premiwm 2002) ac yn y blynyddoedd nesaf.

**Adolygiad Datganoli Coedwigaeth**

8. Pan gyhoeddwyd, ar 10 Mai 2001, bod cam cyntaf yr adolygiad o asiantaeth weithredol y Fenter Goedwigaeth wedi'i gwblhau, dywedais yn glir y byddem yn cynnal adolygiad pellach o'r opsiynau ar gyfer datganoli polisi a rheolaeth ym maes coedwigaeth ymhellach.

9. Ynghyd â Gweinidogion coedwigaeth Lloegr a'r Alban, rwyf wedi penderfynu y bydd yr adolygiad yn dechrau cyn hir ac yn cyflwyno adroddiad i ni yn y Gwanwyn. Bydd yn ystyried y trefniadau gweinyddol presennol ar gyfer cyflwyno polisïau coedwigaeth cynaliadwy yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac ymrwymiadau rhyngwladol y DU ym maes coedwigaeth, gan gynnwys opsiynau ar gyfer datganoli'r trefniadau hyn ymhellach.

10. Caiff yr adolygiad ei gynnal gan swyddogion o'r Comisiwn Coedwigaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweithrediaeth yr Alban, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Swyddfa'r Cabinet a'r Trysorlys. Bydd Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon hefyd yn gysylltiedig â'r adolygiad. Gofynnir am farn grwpiau sydd â diddordeb, gan gynnwys y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, yn ystod yr adolygiad.

**Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru**

11. Ychydig cyn y Nadolig diddymodd yr Uchel Lys Orchymyn a wnaed gan y Cynulliad ym mis Mawrth, a oedd yn pennu aelodaeth a chyllid Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru. Gwnaed y Gorchymyn ar ôl ymgynghori â'r Awdurdodau Lleol ar gynnig gan Gyngor Sir Penfro mewn perthynas â chyfraniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-2002. Fodd bynnag heriwyd y Gorchymyn gan y Pwyllgor a gofynnodd am Adolygiad Barnwrol yn ei erbyn. Rydym wrthi'n ystyried y dyfarniad a byddwn yn cyfarfod â'r Pwyllgor a'r awdurdodau sy'n aelodau er mwyn cytuno ar y camau nesaf.

**Adolygiad Eogiaid**

12. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 5 Rhagfyr, gofynnwyd i mi lunio dadansoddiad o gymorth grant ychwanegol Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adolygiad Eogiaid. Bydd yr adnoddau ychwanegol hefyd yn ategu cais Amcan Un yr Asiantaeth i gefnogi elfennau Astudiaeth Nautilus ar Bysgodfeydd Mewndirol a Môr Cymru. Anfonwyd y wybodaeth hon at Glerc y Pwyllgor ar ffurf copi caled a dylai'r aelodau eisoes fod wedi cael y manylion.

13. Dylid nodi bod swyddogion a'r Asiantaeth yn dal i drafod y rhaniad ei hun. Mae'r Asiantaeth yn y broses o baratoi Cynllun Strwythur Prosiectau a fydd yn tanlinellu sut y bwriadant ddefnyddio'r cymorth grant ychwanegol. Maes o law, bydd yr Asiantaeth yn derbyn llythyr cylch gwaith manwl a fydd yn nodi sut y dylid defnyddio'r cymorth grant ychwanegol. Byddaf yn sicrhau bod copi yn cael ei anfon i'r Pwyllgor.

**Dairy Crest a First Milk**

14. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd partneriaeth newydd rhwng Dairy Crest a First Milk, o dan yr enw Caws Hwlffordd Cyf, a fydd yn sicrhau bod cyflenwadau llaeth yn parhau ar gyfer cynhyrchu caws a maidd yn Sir Benfro yn y tymor hir. Mae'r cyhoeddiad yn dilyn nifer o gyfarfodydd rhyngof i a'm swyddogion a Dairy Crest dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n arwydd cadarnhaol, cryf o'n hymrwymiad ni

ac ymrwymiad Cyfarwyddiaeth Fwyd y WDA, i brosesu â gwerth ychwanegol yng Nghymru. Mae'n newyddion ardderchog i'r sector llaeth yng Nghymru, yn arbennig i faes llaeth gorllewin Cymru, a bydd yn sicrhau y prosesir caws yn Hwlffordd yn y tymor hir ac yn rhoi sicrwydd i ffermwyr llaeth yr ardal. Mae'n fenter sylweddol ar y cyd rhwng ffermwyr a phroseswyr ac mae'n cynrychioli cam pellach tuag at gyflawni amcanion y Bartneriaeth Bwyd Amaeth o safbwynt y sector llaeth yng Nghymru.

**Plannu Coed gyda Choed Cadw yng Nghoedwig Casehill**

15. Ddydd Sul, 2 Rhagfyr 2001, plannodd Prif Weinidog Cymru, y Llywydd a naw o Aelodau'r Cynulliad goeden yr un o fewn coedlan arbennig o eiddo'r Cynulliad Cenedlaethol yn yr estyniad newydd i Goedwig Casehill, coedwig gan Goed Cadw ger Penarth. Trefnwyd y fenter ar y cyd gan y Comisiwn Coedwigaeth, Ymddiriedolaeth Prydain ar gyfer Gwirfoddolwyr Cadwraeth a Choed Cadw mewn cydweithrediad â'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r gefnogaeth drawsbleidiol i'r ymarfer plannu coed yn atgyfnerthu'r ymrwymiad gwleidyddol i roi *Coetir i Gymru* ar waith, sef strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer coed a choetir, gan ddangos cefnogaeth ymarferol Aelodau'r Cynulliad i'r gwaith o greu Cymru fwy cynaliadwy.

**Coed i Roi Cysgod**

16. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyflwyno prosiect "Shelterwoods" i alluogi ffermwyr i blannu coed mewn ffyrdd sy'n gymorth i amaethyddiaeth, sy'n gwella'r amgylchedd ac sy'n creu cyfleoedd i arallgyfeirio. Mae'r prosiect yn gam arloesol tuag at integreiddio coetir gydag amaethyddiaeth, a bydd yn help i gefnogi arferion ffermio mwy cynaliadwy. Llwyddodd y prosiect i ddenu arian Amcan 1 a, bellach, mae wedi cael ei ehangu i gwmpasu Cymru gyfan drwy arian ychwanegol o gynllun adfer cefn gwlad y Cynulliad Cenedlaethol.

17. Mae swyddog prosiect wedi cael ei benodi ac mae wedi sefydlu rhwydwaith o ymgynghorwyr sydd wedi cael eu hyfforddi ac sydd bellach yn rhoi cyngor i ffermwyr ar y ffordd y gall coed wella'r cysgod ar eu ffermydd. Bydd y prosiect yn darparu grantiau plannu gwell i gynorthwyo'r gwaith o greu coetir cynhenid yn bennaf, sydd wedi'i gynllunio'n dda. Mae'r undebau ffermio wedi rhoi cefnogaeth gref i'r prosiect a bu diddordeb mawr iawn gan ffermwyr. Parodd erthygl yn rhifyn cyntaf *Gwlad* i lawer holi cwestiynau, ac yn ôl yr arwyddion cynnar, gallai'r prosiect lwyddo y tu hwnt i'w dargedau.

**Prosiect Pontbren**

18. Wedi i mi ymweld â'r prosiect hwn y llynedd, mae pecyn cymorth grant wedi cael ei negodi, bellach, ar gyfer creu mwy o goetiroedd ar y clwstwr o 10 fferm sydd wedi ffurfio'r prosiect hwn. Mae'r ffermwyr o fewn y prosiect am ailstrwythuro eu busnesau a'u ffermydd ar gyfer y dyfodol. Un o elfennau pwysig eu cynigion yw ymestyn coetir cynhenid o tua 2% o'u ffermydd i gyfartaledd o rhwng 10 ac 20% dros y 5 mlynedd nesaf.

19. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi gweithio gyda'r Adran Amaethyddiaeth i negodi a chyd-

ariannu’r pecyn cymorth grant a fydd yn galluogi’r prosiect i fynd rhagddo. Prosiect ymchwiliol yw hwn a allai helpu i bennu’r ffordd ymlaen wrth ailgyfeirio cymorthdaliadau nwyddau. Prosiect y werin ydyw hefyd, yn hytrach na phrosiect a arweinir gan y sector cyhoeddus, sy’n sicrhau y byddai o fantais fawr i bartneriaid y prosiect pe bai’n llwyddiant.

**Hela gyda chwn**

20. Yn y cyfarfod diwethaf, cytunais i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ar unrhyw gamau a gymerwyd gan adrannau eraill o’r Llywodraeth i ailgyflwyno hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth.

21. Mae’r sefyllfa mewn perthynas â hela llwynogod ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yr un fath yng Nghymru, Lloegr a’r Alban.

22. Yn ystod argyfwng clwy’r traed a’r genau, rhoddodd y Gorchymyn Ardal a Reolir a weithredwyd yng Nghymru a Lloegr gan DEFRA ac yn yr Alban gan Weithrediaeth yr Alban o dan Orchymyn Clwy’r Traed a’r Genau 1983 y gwaharddiad ar hela llwynogod ar waith yn awtomatig. Mae gwaith DEFRA, Gweithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru o weithredu’r ddeddfwriaeth sy’n diwygio Gorchymyn 1983, a ddaeth i rym ar 17 Rhagfyr, yn caniatáu i hela barhau o dan system o drwyddedau.

23. O ganlyniad, ni chafwyd hela o gwbl ar dir y Comisiwn Coedwigaeth rhwng adeg gweithredu’r Gorchymyn Ardal a Reolir ac 17 Rhagfyr. Ar ôl 17 Rhagfyr, caniateir i helfeydd llwynogod a gâi drwydded, fel rheol, i hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, cyn belled â’u bod wedi cydymffurfio ag unrhyw reolau a gweithdrefnau a bennwyd gan yr adran berthnasol o’r Llywodraeth.

24. Deallwn oddi wrth y Comisiwn Coedwigaeth bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn caniatáu hela ar ei dir yng Nghymru, Lloegr a’r Alban yn yr un ffordd yn union.

25. Cyn y cyfyngiadau hanfodol yn sgil clwy’r traed a’r genau, polisi’r Cynulliad Cenedlaethol ar hela llwynogod ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru oedd caniatáu hela o dan weithdrefn drwyddedu lem (mae’r un polisi yn berthnasol yn Lloegr a’r Alban). Cafodd hyn ei ystyried o’r blaen hefyd gan Weinidogion y Swyddfa Gymreig. Y cyngor cyfreithiol oedd y gall helfeydd sy’n gwneud cais i hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth ddisgwyl i’w trwyddedau gael eu cymeradwyo oni bai eu bod yn torri eu hamodau neu fod achos cyfreithiol da i’w gwrthod neu eu dirymu.

26. Mae’r Pwyllgor Amaethyddiaeth wedi trafod y mater hwn o’r blaen ar 7 Chwefror 2001. Mae’r Cynulliad hefyd wedi trafod y mater hwn ar 27 Mehefin 2000 ac wedi cymeradwyo cynnig gan y Ceidwadwyr yn galw ar y Llywodraeth i ganiatáu i’r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu p’un a ddylid gwahardd hela â chwn yng Nghymru ai peidio. Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at yr Ysgrifennydd Cartref ynglyn â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Nododd yr ymateb y byddai unrhyw ddeddfwriaeth ar hela yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol ac y byddai, felly, yn fater i’r Senedd.